Datganiad Caethwasiaeth Fodern

2022-23

Datganiad Caethwasiaeth Fodern 2022-23

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ac yn ymyriad ar hawliau dynol. Mae gwahanol ffurfiau iddo, gan gynnwys caethwasiaeth, llafur gorfodol a masnachu pobl ar gyfer camfanteisio arnynt a gall gael effaith andwyol ar unigolion, teuluoedd a chymunedau ledled y byd.

Mae'r datganiad hwn yn amlinellu'r camau y mae Adra wedi'u cymryd yn ystod blwyddyn ariannol Ebrill 2022 - Mawrth 2023 i leihau'r risgiau o unrhyw gysylltiad gydag arferion sy'n tanseilio egwyddorion diogelwch ac urddas ein cwsmeriaid, cydweithwyr a'n cadwyni cyflenwi.

Mae'r datganiad hwn yn mynegi ein hymrwymiad i wella ein harferion i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl yn ein gweithgareddau corfforaethol a'n cadwyni cyflenwi.

Cyflwyniad

Adra yw cymdeithas dai fwyaf Gogledd Cymru, yn darparu dros 7,000 o gartrefi ar draws y rhanbarth i'r rheini sydd ag angen tai. Rydym ni'n darparu cartrefi a gwasanaethau fforddiadwy o ansawdd i'n tenantiaid gyda'r nod o warchod a datblygu diwylliant a threftadaeth y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Rydym yn gyfrifol am reoli a chynnal a chadw stoc tai amrywiol, sy'n cynnwys 400 o unedau tai gwarchod ar gyfer unigolion hŷn a rhai mewn risg. Rydym yn rheoli nifer o gadwyni cyflenwi ar draws y busnes wrth i ni i adeiladu, rheoli, a chynnal ein cartrefi i safon uchel.

Mae Adra wedi ymrwymo i gynnal ei fusnes mewn ffordd gyfrifol yn gymdeithasol yn unol â safonau moesegol priodol. Rydym wedi ymroi i weithredu gyda hygrededd yn ein holl berthnasau busnes a gorfodi prosesau a mesurau effeithiol i sicrhau nad yw caethwasiaeth a masnachu mewn pobl yn digwydd yn unrhyw ran yn ein cadwyni cyflenwi. Mae Adra yn sicrhau bod y lefel uchaf o hygrededd yn cael ei gynnal drwy ein holl feysydd busnes drwy hyrwyddo ein gwerthoedd craidd:

- **Uchelgeisiol**
- **Agored a theg**
- **Dibynadwy**

Strwythur y Sefydliad a Busnes

Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein pwrpas o "gefnogi ein cymunedau a darparu cartrefi o safon lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus", mae'n hanfodol ein bod yn cael ein llywodraethu'n effeithiol er lles ein cwsmeriaid. Mae gan Adra Fwrdd Rheoli sydd o faint hyblyg, rhwng 9 a 12 Aelod Bwrdd. Mae dau Aelod o'r Bwrdd yn Aelodau Bwrdd Tenantiaid a hyd at ddau o'r Awdurdod Lleol. Mae Adra hefyd yn cyfethol Aelodau ychwanegol i ddod â sgiliau penodol ychwanegol. Mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn goruchwylio tîm rheoli gweithredol Adra.

Mae Adra yn cyflogi dros 360 staff, gan ddarparu bron i 7,000 o gartrefi ledled Gogledd Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'n cartrefi ar gyfer tai anghenion cyffredinol, ac rydym hefyd yn darparu tai gwarchod a thai â chymorth.

Mae Adra wedi'i chofrestru gyda Llywodraeth Cymru ac yn cael ei rheoleiddio ganddi, ac mae hefyd wedi'i chofrestru, gyda rheolau elusennol, o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.

Beth yr ydym wedi'i gyflawni yn y 12 mis diwethaf?

Yn ystod blwyddyn ariannol Ebrill 2022 - Mawrth 2023, mae Adra wedi cymryd nifer o gamau rhagweithiol i ddiogelu rhag y risg o gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwi. Er enghraifft:

- Rydym yn parhau i weithio drwy'r Cynllun Gweithredu sy'n manylu ar y gweithgareddau yr ydym yn ymgymryd â hwy i weithredu'r ymrwymiadau yng Nghod Ymarfer Llywodraeth Cymru – Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi;
- Rydym yn parhau i adolygu a diweddaru ein prosesau caffael i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i arferion cyflogaeth y cyflenwr.
- O fewn ein proses dendro, mae Caethwasiaeth Fodern a Chyflogaeth Foesegol wedi ymdreiddio fel ystyriaeth allweddol, yn ffurfio rhan o'n meini prawf dewis ac yn cael eu cynnwys yn ein cofrestr contractwyr ar gyfer pob tendr mawr.
- Rydym wedi parhau i dalu ein cadwyn cyflenwi yn brydlon i sicrhau bod arferion moesegol yn parhau drwy bob haen o'r gadwyn cyflenwi.
- Rydym wedi cyflawni lefel uwch o dryloywder yn ein cadwyn cyflenwi drwy rannu prosiectau gwella cyfalaf i gontractau llai sydd wedi'u pennu ar lefel mwy lleol.
- Rydym wedi rhoi cynllun gweithredu Diogelu ar waith ar draws y sefydliad i amddiffyn grwpiau agored i niwed.

Polisïau

Mae Adra (Tai) yn gweithredu'r polisïau canlynol sy'n berthnasol i'n gweithgarwch yn y maes yma:

- Cod Ymddygiad Staff
- Cod Ymddygiad Cyflenwyr
- Cod Ymddygiad Aelodau Bwrdd
- Rheolau Gweithdrefnau Contractau
- Strategaeth Gaffael Gynaliadwy
- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Polisi Diogelu Grwpiau Agored i Niwed
- Polisi Urddas yn y Gwaith
- Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Polisi Gwrth-dwyll, Gwyngalchu Arian, Llwgrwobrwyo, Trosedd a Diogelwch Gwybodaeth
- Polisïau Iechyd a Diogelwch
- Polisi Recriwtio a Dewis
- Polisi Cam-drin Domestig
- Rheoliadau Ariannol
- Rheolau Sefydlog

Diwydrwydd dyladwy a Rheoli Risg

Mae Adra yn ymwybodol bod y diwydiant adeiladu yn fwy agored i gaethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl nag amryw o sectorau eraill, hyd yn oed ar gyfer y cwmnïau hynny sy'n gweithredu o fewn y DU yn unig. Gan ein bod yn comisiynu gwaith adeiladu a phrosiectau adnewyddu ar ein heiddo, rydym felly yn gweithredu mewn sector 'risg uchel'

Mae Adra wedi cyflwyno nifer o gamau i liniaru'r risg o gaethwasiaeth fodern neu fasnachu pobl wrth gyflenwi ei wasanaethau a chadwyni cyflenwi. Er enghraifft, gofynnir i bob contractwr ar Gofrestr Contractwyr Cymeradwy Adra lofnodi Cod Ymddygiad Cyflenwyr Adra. Mae'r Cod yn nodi'r isafswm safonau ymddygiad ac arfer yr ydym yn ei ddisgwyl gan ein Cyflenwyr a'u his-gontractwyr. Roedd 148 o gyflenwyr wedi llofnodi ein Cod erbyn Mawrth 2023, ffigur sy'n cynyddu blwyddyn ar ôl blwyddyn.

Mae tendro ein holl gontractau yn cynnwys gofyniad bod cyflenwyr yn cydymffurfio â'r Ddeddf a pheidio â chymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd sy'n groes i Ddeddf Caethwasiaeth Fodern. Mae'r meini prawf yn parhau i gynnwys cwestiynau sy'n berthnasol i arferion cyflogi'r cyflenwr a chydymffurfiad â'r Ddeddf. Yn benodol, mae pob contract newydd yn cynnwys y cymalau sy'n sicrhau bod cyflenwyr yn cydymffurfio â'r holl rwymedigaethau statudol mewn perthynas ag iechyd, diogelwch, lles, amgylchedd, caethwasiaeth fodern, hawliau a pherthnasau cyflogaeth, hawliau gwaith, hawliau dynol, a chydraddoldeb. Ymhellach i hyn, caiff Cod Ymddygiad Cyflenwyr Adra ei gynnwys gyda phob cyfle newydd am gontract a gaiff ei gyhoeddi.

Mae Adra wedi mabwysiadu polisi dim goddefgarwch at gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl. Rydym yn cynnwys telerau contractiol yn neu gytundebau masnachol gyda chyflenwyr sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio nid yn unig gyda'r ddeddfwriaeth berthnasol, ond hefyd gyda darpariaethau penodol o ran sut y caiff unigolion eu trin.

Cadwyni Cyflenwi Adra (Tai)

Mae Adra wedi nodi bod ei gadwyn cyflenwi yn un o'r prif feysydd o risg ac amlygiad i gaethwasiaeth fodern. Mae Cadwyn Gyflenwi Adra yn canolbwyntio yn bennaf ar adeiladu, gwasanaethau proffesiynol, cyfleustodau a rheoli cyfleusterau. Yn 2022-2023, defnyddiwyd o gwmpas 466 o gyflenwyr unigol gennym ar draws amrediad eang o nwyddau, gwaith a gwasanaethau.

Mae caffael Adra yn cael ei lywodraethu gan Reolau Gweithdrefn Contract mewnol Adra a Strategaeth Caffael Cynaliadwy, a chan y Drefn Dirprwyo. Mae'r rhain yn sicrhau bod contractau'n cael eu dyfarnu yn unol ag egwyddorion tegwch, tryloywder, peidio â gwahaniaethu, a thriniaeth gyfartal.

Mae Adra wedi sefydlu perthnasau uniongyrchol gyda nifer o gyflenwyr sydd wedi'u lleoli yn y DU, ac nid oes gennym unrhyw gyflenwyr Haen 1 o'r tu allan i'r DU. Fel sefydliad, rydym wedi ymrwymo i gefnogi BBaCh i ymgysylltu â phrosesau caffael, a thynnu'r rhwystrau a wynebir gan BBaCh wrth gystadlu am gontractau.

Ein hamcan trwy bob cyfle i dendro, yw cyfrannu at ddatblygiad yr economi leol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i adfywio cymunedau a gwerth cymdeithasol. Rydym hefyd yn trafod yn rhagweithiol gyda'n cyflenwyr a chadwyn gyflenwi ynglŷn â mentrau cymdeithasol gyda'r amcan o greu cyfleoedd wedi'u targedu ar gyfer y cymunedau yr ydym yn gweithio ynddyn nhw.

Hyfforddiant

Mae Adra yn darparu Hyfforddiant Diogelu sy'n ymdrin â meysydd allweddol megis deall ein rôl ein hunain mewn perthynas â diogelu oedolion, plant a phobl ifanc. Mae'r hyfforddiant yn ymdrin â sut i adnabod y mathau o niwed ac esgeulustod yn ogystal â sut i adrodd am bryderon.

Rhaid i aelodau Tîm Caffael Adra gwblhau hyfforddiant y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi ar arferion Caffael Moesegol a pharhau i ddiweddaru eu gwybodaeth yn y maes hwn.

Monitro Effeithlonrwydd

Mae Adra yn deall pwysigrwydd asesu effeithiolrwydd ein dull o ymdrin gyda chaethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl ac yn parhau yn ymrwymedig i sicrhau nad yw caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl yn digwydd yn ein cadwyni cyflenwi.

Byddwn yn adolygu ein polisïau a gweithdrefnau yn barhaus i ymgysylltu a hyfforddi staff ym mhob rhan o'r sefydliad i wella dealltwriaeth a thargedu meysydd o fewn ein busnes sydd fwyaf ar risg.

Beth mae Adra wedi'i gyflawni a'i weithredu?

Penodwyd 'Hyrwyddwr Caffael Moesegol' o'r tîm caffael i godi ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern ledled y sefydliad.

Mae hyfforddiant Caethwasiaeth Fodern wedi'i ddarparu yn y sefydliad i amlygu a gweld yr arwyddion a sut i roi gwybod am unrhyw bryderon.

Rhoddwyd sianel gyfathrebu ar waith ar gyfer Caethwasiaeth Fodern a oedd yn cynnwys gwybodaeth ac adnoddau defnyddiol a sicrhawyd bod yr wybodaeth hon ar gael i'r holl staff.

Fel sefydliad, byddwn yn dod yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol achrededig, yn sicrhau bod Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael ei dalu ar draws y sefydliad, a hefyd o fewn ein cadwyni cyflenwi lle'n bosibl.

Beth yw ein cynlluniau ar gyfer y 12 mis nesaf?

Mae Adra yn cydnabod bod angen gweledigaeth tymor-hir, bod yn rhaid cydlynu a chydweithio i oresgyn caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl. Byddwn yn parhau i adolygu ein strategaeth gaffael a bydd caffael moesegol yn parhau fel thema amlwg.

Bydd bil caffael newydd ar gyfer y DU yn dod i rym yn hydref 2024 a bydd Rheolau Gweithdrefn Contract Adra yn cael eu diweddaru i adlewyrchu gofynion y bil. Bydd y tîm Caffael yn sicrhau bod rheolaethau priodol yn cael eu gweithredu a'u hymgorffori mewn unrhyw bolisïau a phrosesau yn y dyfodol.

Bydd y tîm Caffael yn hyrwyddo'r mecanweithiau ar gyfer codi amheuon ynghylch arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesegol.

Byddwn yn parhau i adolygu ein proses mewnol i fonitro effeithiolrwydd ein gweithrediadau yn erbyn caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o gynnydd yn y tryloywder yn ein cadwyni cyflenwi er mwyn gallu lleihau risg o gaethwasiaeth fodern ac arferion anfoesegol.

Bydd y tîm Cwsmeriaid a Chymunedau yn parhau i gynorthwyo ein tenantiaid i osgoi cam-drin neu ddioddef gangiau fel llinellau sirol.

Datganiad

Mae'r datganiad hwn wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd Rheoli Adra a chaiff ei wneud yn unol ag adran 54(1) o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

Hywel Eifion Jones Iwan Trefor Jones

Cadeirydd y Bwrdd Prif Weithredwr